

Teitl y Swydd:	Technegydd Arddangoswr Seicoleg Gymhwysol
Uned/Ysgol:	YChGIC
Gradd:	6AB
HERA:	CSAD36

Prif bwrpas y rôl

Mae deiliad y swydd yn gyfrifol am weithredu'r cyfleusterau addysgu ac ymchwil seicoleg gan gynnwys gweithredu a chynnal a chadw offer a meddalwedd arbenigol.

Bydd deiliad y swydd yn arddangos offer a meddalwedd i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig. Bydd deiliad y swydd yn rheoli deunyddiau ac offer yn yr ardal. Byddant yn rhoi cyngor ar addysgu ymarferol a datblygu sgiliau angenrheidiol. Bydd deiliad y swydd yn cysylltu â staff academiaidd, technegol a gweinyddol i sicrhau bod eu maes cyfrifoldeb yn cael ei reoli'n effeithiol.

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am iechyd a diogelwch pob defnyddiwr yn ei ardal ac yn darparu hyfforddiant, gwybodaeth a chynghor yn ôl yr angen.

Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol

Bydd y Technegydd Arddangos yn ymgymryd â rhai neu'r holl ddyletswyddau canlynol, a gyflawnir ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Rhaglen / Rheolwr Academaidd / Rheolwr llinell neu aelodau staff eraill a nodwyd yn ôl yr angen:

- **Cynllunio a chyflwyno arddangosiadau labordy:** Cymryd rhan mewn cyfarfodydd cynllunio i baratoi ar gyfer sesiynau ymarferol sydd wedi'u cynllunio gan staff academiaidd. Sicrhau bod offer a deunyddiau yn eu lle ar yr adegau priodol, a bod ystafelloedd a chyfleusterau arbenigol yn barod ar gyfer addysgu ac yn gweithredu'n effeithiol ac yn ddiogel. Cyflwyno arddangosiadau o offer a meddalwedd, o lefel gyflwyniadol i lefel uwch mewn sesiynau wedi'u hamserlennu.
- **Cefnogi dysgu myfyrwyr a chyflwyniad academiaidd:** Rhoi adborth i staff academiaidd ar ddatblygiad sgiliau myfyrwyr, nodi anghenion hyfforddi a sicrhau bod arddangosiadau'n cyd-fynd â chanlyniadau dysgu.
- **Cynnal a datblygu arbenigedd technegol:** Cynnal sgiliau a gwybodaeth mewn TG cyffredinol a meddalwedd arbenigol (gan gynnwys OpenSesame ac SPSS), ac offer arbenigol (gan gynnwys EEG, BIOPAC, ac olrhainwyr llygaid). Sicrhau bod arddangosiadau'n adlewyrchu arfer cyfredol a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg.
- **Rheoli adnoddau ac offer labordy:** Codi a derbyn archebion gan ddefnyddio system gyllid y brifysgol yn unol â rheoliadau'r Brifysgol. Ymgymryd â rheolaeth gyllidebol, mewn cysylltiad agos â staff academiaidd / rheolwyr labordy a deiliaid cyllideb. Rhoi cyngor ar gaffael offer newydd ac offer newydd. Cynnal rhestr eiddo o asedau, a

sicrhau bod yr holl offer yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddiogel, yn weithredol, ac yn cael ei storio'n briodol.

Yn ôl y cyfarwyddyd, sicrhau bod profion statudol rheolaidd ar offer yn cael eu cynnal a bod argymhellion yn cael eu gweithredu i fodloni cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch.

- **Darparu hyfforddiant a chymorth technegol cyffredinol:** Darparu hyfforddiant ac arweiniad i fyfyrwyr a defnyddwyr eraill y cyfleuster. Sicrhau bod pob defnyddiwr yn gymwys ac wedi'i hyfforddi'n briodol.
- **Hyrwyddo a monitro cydymffurfiaeth iechyd a diogelwch:** Rhoi cyngor ar iechyd, diogelwch a lles. Cymryd rhan yng Ngweithgor Arolygu Iechyd a Diogelwch yr Ysgol. Goruchwylio gwaith labordy i gynnal amgylchedd diogel.

Yn ôl yr angen, bydd deiliad y swydd yn ymgymryd â rhai neu'r cyfan o'r rolau canlynol; cymorth cyntaf/cymorth cyntaf meddyliol; warden tân a gweithredwr *Evac+Chair*.

- **Cynnal arferion gwaith diogel:** Datblygu a goruchwylio systemau rheoli iechyd a diogelwch labordai, ysgrifennu ac adolygu asesiadau risg, cynnal cofrestrau diogelwch, a monitro arferion anniogel.
- **Cefnogi ymchwil a menter:** Cynorthwyo gyda gweithgareddau ymchwil ac arloesi ysgolion yn ôl yr angen.
- **Dyletswyddau Eraill:** Yn ôl yr angen, bydd deiliad y swydd yn cymryd rhan ym Mhrotocol Wrth Gefn ac Ar Alwad yr Ysgol. Mae'r trefniadau hyn yn cwmpasu holl safleoedd y Brifysgol.

Unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill a allai fod yn ofynnol o bryd i'w gilydd.

- **Rhaglenni Ar y Cyd.** Bydd gofyn i ddeiliad y swydd ddarparu cefnogaeth i raglenni gradd seicoleg ar y cyd a rennir gydag Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol.

Manyleb person

Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol

- Gradd anrhydedd mewn maes cysylltiedig neu brofiad proffesiynol cyfatebol.

Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Sgiliau technegol ac arbenigol y gellir eu dangos mewn maes priodol o Seicoleg Gymhwysol neu faes cysylltiedig gan gynnwys dealltwriaeth dda o EEG, BIOPAC ac offer olrhain llygaid.
2. Profiad ymarferol y gellir ei ddangos, gan gynnwys profiad o reoli cyfleuster bach neu faes arbenigol.

3. Y gallu i gynllunio, blaenoriaethu a rheoli llwyth gwaith neu brosiectau bach i gyflawni amcanion y cytunwyd arnynt.
4. Sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol cryf, gyda'r gallu i esbonio cysyniadau technegol yn glir.
5. Ymrwymiad i rannu gwybodaeth, cefnogi dysgu myfyrwyr, ac ysgogi eraill.
6. Hyblygrwydd i weithio ar draws sawl maes disgyblaeth (e.e. Gwyddorau Biofeddygol, Gwyddor Bwyd) ar fyr rybudd. Sylw i fanylion a lefel uchel o gywirdeb mewn tasgau technegol a gweinyddol.
7. Sgiliau TG rhagorol, gan gynnwys cymhwysedd wrth ddefnyddio meddalwedd dylunio ystadegol, dadansoddol ac arbrofol sy'n berthnasol i'r Gwyddorau Cymdeithasol gan gynnwys SPSS ac OpenSesame.
8. Gallu profedig i reoli a chynnal safonau iechyd a diogelwch mewn amgylchedd labordy.
9. Y gallu i ddarparu hyfforddiant, arweiniad a goruchwyliaeth i fyfyrwyr a staff ar ddefnyddio offer yn ddiogel ac yn effeithiol.
10. Y gallu i ddatblygu a chynnal gwybodaeth dechnegol gyfredol, gan addasu i dechnolegau a dulliau newydd.

Dymunol

1. Profiad o weithio mewn amgylchedd addysg uwch neu addysgu.
2. Profiad o arddangos offer a thechnegau ymarferol mewn sesiynau a addysgir.
3. Profiad o ddefnyddio EEG, BIOPAC ac offer olrhain llygaid.
4. Cymhwyster cydnabyddedig mewn rheoli iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â seicoleg neu o fewn lleoliad addysgol.

Gofynion sgiliau Cymraeg

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: [Lefelau sgiliau iaith Gymraeg](#). Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

Lefel iaith a disgrifiwr cyffredinol	Gwranddo	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
A1 – Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	Dymunol	Dymunol	Dymunol	Dymunol

A2 - Defnyddiwr sylfaenol Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredin a syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol.				
B1 - Defnyddiwr canolradd Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith.				
B2 - Defnyddiwr canolradd uwch Yn gallu mynegi fy hun yn y Gymraeg ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol.				
C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg.				
C2 - Meistrolaeth Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn y Gymraeg.				

Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Nid oes angen gwiriad DBS ar gyfer y swydd hon.

Gwybodaeth ategol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac mae'n bosib y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r fanyleb person hon fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.